

CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion o Gyfarfod Mis Chwefror Cyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd ar 12/02/2020 yn Neuadd Llanddarog am 7.30pm

Minutes of the February Meeting of Llanddarog Community Council held on 12/02/2020 in Llanddarog Hall at 7.30pm

289/2019-20 Presennol / Present:

Cynghorwyr / *Councillors*: R Jones (Cadeirydd dros-dro/Acting chairman), J Youens, J Williams O.B.E, S Herridge, H Jones.

Clerc / *Clerk*.

Cyfieithydd / *Translator*.

290/2019-20 Ymddiheuriadau / Apologies.

Cynghorwyr / *Councillors*: R Newell (Cadeirydd/Chairman), M Rees, R Owens, W Evans, E Davies.

291/2019-20 Datganiadau o fuddiannau personol / Declarations of personal interest

Cyhoeddodd y Cynghorydd J Williams ddiddordeb yn eitem 14(a) ar yr agenda, Sied Y Dynion Cwm Gwendraeth oherwydd ei fod yn aelod o'r grŵp.

Cllr J Williams declared an interest in agenda item 14(a) Cwm Gwendraeth Men's Shed due to being a member of the group.

292/2019-20 Cyfle i'r cyhoedd i annerch y Cyngor ar eitemau'r agenda / Opportunity for the public to address the Council on agenda items

Dim / *None*.

293/2019-20 Materion Plismona a diogelwch ffyrdd. /Policing and Road Safety Matters.

Fe ddaeth I sylw bod Arwyddion Adborth Gyrrwyr mewn cymuned gyfagos wedi'u lleoli yn y pentref heb unrhyw gost i'r Cyngor Cymuned. Penderfynwyd rhoi'r mater ar yr agenda ar gyfer cyfarfod Mis Mawrth 2020.

It was brought to our attention that Driver Feedback Signs in a neighbouring community were sited in the village at no cost to the Community Council. It was resolved to place the matter on the agenda for the March 2020 meeting.

294/2019-20 Materion Cyngor Sir - Cynghorydd Sir A Davies. / County Council matters - County Councillor A Davies.

Adroddodd Cynghorydd Sir A Davies bod Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi cynllun gweithredu newid yn yr hinsawdd sy'n nodi sut y bydd yn gweithio tuag at ddod yn sero carbon net yn y 10 mlynedd nesaf. Mae ymdrechion i leihau a gwrthbwyso allyriadau carbon eisoes yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r agenda newid yn yr hinsawdd, ond mae mwy i ddod gyda ffocws ar feysydd allweddol wrth i'r cyngor ymateb i'r her. Y llynedd daeth yr awdurdod yn un o'r cynghorau cyntaf yn y Deyrnas Unedig i ddatgan argyfwng hinsawdd, gan addo dod yn sero carbon net erbyn 2030 - 20 mlynedd cyn targedau llywodraeth Cymru a'r

DU - ac ymrwymo i gyhoeddi cynllun gweithredu o fewn blwyddyn. Ar ben-blwydd cyntaf ei ddatganiad, cefnogodd y Cyngor Llawn heddiw (Chwefror 12, 2020) y cynllun hwnnw ac ailadrodd ei ymrwymiad, yn ogystal â thynnu sylw at y camau cadarnhaol y mae eisoes wedi'u cymryd. Mae'r cyngor wedi lleihau allyriadau carbon o'i adeiladau annomestig 38% er 2005/2006, ac yn caffael ei holl drydan o ffynonellau ynni adnewyddadwy. Mae wedi buddsoddi £2 filiwn mewn 200 o brosiectau effeithlonrwydd ynni yn y gobaith o arbed 41,000 tonnell o allyriadau carbon. Mae pob prosiect adeiladu mawr newydd yn ymgorffori ynni adnewyddadwy, gan gynnwys paneli solar, pypiau gwres aer a daear. Mae allyriadau carbon o oleuadau stryd wedi gostwng 65% ers 2011/2012, ac mae 80% o 20,000 o oleuadau stryd y sir wedi'u trosi'n LED ynni isel. Mae allyriadau carbon o fflyd y cyngor, gan gynnwys cerbydau sbwriel a graeanu, wedi gostwng 19% ers 2012/2013 gyda mwy o fuddsoddiad i'w uwchraddio i fflyd fwy effeithlon o ran ynni. Y cyngor oedd y cyntaf yng Nghymru i brynu ceir trydan i leihau effaith milltiroedd busnes, sydd wedi'i gefnogi gan arferion gwaith ystwyth newydd i leihau teithio staff. Ymhlith y camau gweithredu mae datblygu gostyngiadau carbon newydd o adeiladau'r cyngor, prynu fflyd fwy ynni effeithlon, cydweithredu â chyrrff cyhoeddus eraill i sicrhau newid ehangach, archwilio cyfleoedd ar gyfer plannu coed a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar dir sy'n eiddo i'r cyngor.

Rhodddwyd diweddariad ar yr adeiladau gwag yn y gymuned gyda chanlyniad cadarnhaol y bydd un cartref yn cael ei adnewyddu erbyn 30ain o Fawrth 2020 a'r ddau arall wedi'u cwblhau erbyn 30ain o Ebrill 2020.

Mae diwrnod casglu sbwriel wedi'i drefnu gan Merched y Wawr i'w gynnal yn Llanddarog a Porthyrhyd ddiwedd mis Mawrth 2020 (Dyddiad i'w gadarnhau) ac mae croeso i wirfoddolwyr ymuno â'r digwyddiad. Penderfynwyd diolch Y Cyngorydd Sir A Davies am yr adroddiad.

County Cllr A Davies reported that Carmarthenshire County Council has become the first local authority in Wales to publish a climate change action plan detailing how it will work towards becoming net zero carbon in the next 10 years. Efforts to reduce and offset carbon emissions are already making a positive contribution to the climate change agenda, but more is to come with focus on key areas as the council rises to the challenge.

Last year the authority became one of the first councils in the UK to declare a climate emergency, pledging to becoming net carbon zero by 2030 - 20 years ahead of Welsh and UK government targets - and committing to publish an action plan within a year. On the first anniversary of its declaration, Full Council today (February 12, 2020), backed that plan and repeated its commitment, as well as highlighting the positive actions it has already taken.

The council has reduced carbon emissions from its non-domestic buildings by 38 per cent since 2005/2006, and procures all its electricity from renewable energy sources. It has invested £2million in 200 energy efficiency projects in the hope of saving 41,000 tonnes of carbon emissions. All new major build projects incorporate renewable energy, including solar panels, air and ground source heat pumps. Carbon emissions from street lights have reduced by 65 per cent since 2011/2012, and 80 per cent of the county's 20,000 street lights have been converted to low energy LED. Carbon emissions from the council's fleet, including refuse and gritting vehicles, has reduced by 19 per cent since 2012/2013 with more investment due to upgrade to a more energy efficient fleet. The council was the first in Wales to purchase electric cars to reduce the impact of business mileage, which has been

supported by new agile working practices to reduce staff travel. Actions include developing new carbon reductions from council's buildings, purchasing more energy efficient fleet, collaboration with other public bodies to deliver wider change, exploring opportunities for tree planting and renewable energy generation on council-owned land.

An update was given on the empty properties within the community with a positive outcome that one property will be renovated by 30th March 2020 and the other two completed by 30th April 2020.

A litter pick has been organised by Merched y Wawr to take place in Llanddarog and Porthyrhyd at the end of March 2020 (Date to be confirmed) and volunteers are welcome to join the event. It was resolved to thank County Cllr A Davies for her report.

295/2019-20 Adroddiad y Cadeirydd. / Chairman's Report.

Croesawodd y Cadeirydd Dros Dro bawb i'r cyfarfod. Anfonodd y Cynghorydd R Newell (Cadeirydd) ei ymddiheuriadau am fethu â mynychu'r cyfarfod oherwydd afiechyd. Dim i'w adrodd. Penderfynwyd diolch i'r Cadeirydd Dros Dro am ei adroddiad.

The Acting Chairman welcomed everyone to the meeting. Cllr R Newell (Chairman) sent his apologies for not being able to attend the meeting due to ill health. Nothing to report. Resolved to thank the Acting Chairman for his report.

296/2019-20 Cadarnhau ac arwyddo Cofnodion Cyfarfodydd y Cyngor 08/01/20 & 29/01/20. **Confirmation and signing of the Minutes of the Council meetings - 08/01/20 & 29/01/20.**

Fel sy'n arferol, roedd y Clerc wedi darparu cofnodion drafft i'r Aelodau cyn y cyfarfod gyda'r agenda / galwad i fynychu. Ar ôl cynnig gan y Cynghorydd (Cyng.) S Herridge ac eilio gan Cyng. J Touens; penderynwyd cadarnhau a llofnodi'r cofnodion yma (dan law'r cadeirydd dros-dro), yn amodol ar cywiro cofnod 261/2019-20 – Testun Saesneg (newid rhif o 1 i 0), Cyllideb 2020/2021 – Testun Cymraeg a Saesneg (newid y flwyddyn o 21/22 i 20/21) Gwnaeth y Clerc y newid yma drwy law a chafodd hyn ei dystio drwy law (initialled) a'i ddyddio gan y Cadeirydd llywyddol. Fe fydd y copi electronig yn cael ei gyhoeddi gyda'r cywiriad hwn wedi'i gynnwys.

As is customary, the Clerk had provided Members with draft minutes in advance of the meeting with the agenda / summons. Following a proposal by Councillor (Cllr.) S Herridge and seconding by Cllr J Youens, it was resolved to confirm and sign these minutes (under the hand of the acting chairman), subject to correction of minute 261/2019-20 – English text (change of number from 1 to 0), 2020-2021 budget – Welsh and English text (change of year from 21/22 to 20/21) The Clerk made the change by hand and this was initialled and dated by the acting Chairman. The electronic copy will be published with this correction included.

297/2019-20 Materion yn codi o'r cofnodion uchod. / Matters arising from the above minutes.

Cyfeirir at gofnod 262/2019-20 Safbwynt y Cyngor o ran y prosiect partneriaeth arfaethedig gyda Chyngor Sir Gâr ar gyfer darparu arwyddion adborth cyflymder i yrwyr ym Mhorthyryhd.

Fe ddaeth I sylw bod Arwyddion Adborth Gyrwyr mewn cymuned gyfagos wedi'u lleoli yn y pentref heb unrhyw gost i'r Cyngor Cymuned. Penderfynwyd rhoi'r mater ar yr agenda ar gyfer cyfarfod Mis Mawrth 2020.

Reference to minute 262/2019-20 Council's position with regards the proposed partnership project with Carmarthenshire County Council to provide driver feedback speed signs in Porthyryhd.

It was brought to our attention that Driver Feedback Signs in a neighbouring community were sited in the village at no cost to the Community Council. It was resolved to place the matter on the agenda for the March 2020 meeting.

298/2019-20 I nodi gohebiaeth gyffredinol neu ei rhestri am ystyriaeth yn cyfarfod y Cyngor i ddod. / To note general correspondence or to list for consideration at an upcoming Council meeting.

(a) Nodwyd yr eitemau isod. / *The below items were noted.*

Wrth / From	Testun / Subject
Un Llais Cymru / One Voice Wales	Derbyniwyd ffurflen aelodaeth / anfoneb i aros yn aelod ar gyfer blwyddyn 2020/2021. <i>Membership form / invoice received to remain a member for year 2020/2021.</i>
Urdd Gobaith Cymru / Urdd Gobaith Cymru	Derbyniwyd llythyr gan ddisgybl yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn gofyn am rodd i helpu i ariannu prosiect gwirfoddoli rhyngwladol i Batagonia. <i>Letter received from a pupil at Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin asking for a donation to help fund an international volunteering project to Patagonia.</i>

(a) Gweithredoedd yn sgil ohebiaeth / *Actions resulting from correspondence:*

(1) Cynigiwyd gan y Cynghorydd J Williams O.B.E. ac eiliwyd gan y Cyng J Youens i aros yn aelod o Un Llais Cymru. Penderfynwyd i'r clerwr lenwi'r ffurflen gais a'i ddychwelid gyda thaliad i'r anfoneb.

It was proposed by Cllr J Williams O.B.E. and seconded by Cllr J Youens to remain a member of One Voice Wales. Resolved for clerk to complete application form and return with payment of invoice.

(2) Cynhaliwyd trafodaeth ar y mater hwn oherwydd bod y disgybl yn byw y tu allan i ardal y Cyngor Cymuned. Daethpwyd i gyfaddawd trwy awgrymu y dylid gwahodd y myfyriwr i roi sgwrs ar ei brofiad ym Mhatagonia ac i addysgu'r gymuned ar ei daith a'i brofiad. Cynigiwyd gan y Cyng J Williams O.B.E. ac eiliwyd gan y Cynghorydd H Jones i roi £ 50.00 tuag at y prosiect.

A discussion was held on this matter due to the fact that the pupil resides outside of the Community Council area. A compromise was reached by suggesting that the student be invited to give a talk on his experience in Patagonia and to educate the community on his journey and experience. It was proposed by Cllr J Williams O.B.E. and seconded by Cllr H Jones to donate £50.00 towards the project.

299/2019-20 Cynllunio / Planning

W/40152 – Gwaith coed o fewn ardal gadwraeth. Lleoliad - Mynwent Eglwys St. Twrog, Llanddarog, Caerfyrddin, SA32 – 8NT

Tree works to various trees in conservation area. Location – St. Twrog Church Graveyard, Llanddarog, Carmarthen, SA32 – 8NT.

Penderfynwyd nodi / Resolved to note.

W/40160 – Tystysgrif datblygiad cyreithlon ar gyfer defnydd neu ddatblygiad arfaethedig ar gyfer addasu'r garej bresennol i astudio ac amnewid drws garej bresennol gyda drws gwydrog a sgrin. Lleoliad – Y Ficerdy, Llanddarog, Caerfyrddin, SA32 – 8PA

Lawful development certificate for the proposed use or development for the conversion of existing garage to study and replacement of existing garage door with glazed door and screen. Location – Y Ficerdy, Llanddarog, Carmarthen, SA32 – 8PA.

Penderfynwyd nodi / Resolved to note.

W/40162 – Estyniad unllawr i flaen yr annedd. Lleoliad – Aweldeg, Porthyrhyd, Caerfyrddin, SA32 – 8TT.

Single storey extension to front of property. Location – Aweldeg, Porthyrhyd, Carmarthen, SA32 – 8TT.

Penderfynwyd nodi / Resolved to note.

300/2019-20 Taliadau. / Payments.

Cadarnhawyd yr isod. / *The below were* ratified.

Rhif Siec. / Cheque Number.	Dyddiad. /Date.	Cyflenwr a manylion./ Suppliers and details.	Swm £ yn cynnwys unrhyw TAW. / Sum £ inc of any VAT.
1510	13/01/20	Pwyllgor Llesiant Mynyddcerrig – Coeden nadolig. Mynyddcerrig Welfare Committee – Christmas Tree	50.00
1514	27/01/20	WCVA – Asiant Cyflogres Ionawr 2020 – Payroll agent January 2020..Cyflog a lwfans Clerc ar ol treth - cyfnod 9 <i>Clerk salary and allowances after tax - period 9</i>	24.60
1515	21/01/20	Cyflog a lwfans y clerc cynorthwyol ar ol treth l Cyfnod 10.	135.52

		Temporary Assistant Clerk salary and allowances after tax – Period 10	
1516	22/01/20	Cyflog a lwfans Clerc ar ol treth - cyfnod 10 <i>Clerk salary and allowances after tax - period 10</i>	328.39

Awgrymodd y cyngor y dylai'r clercc ymchwilio am wybodaeth am fancio ar-lein er mwyn arbed arian ac amser ynghylch prosesau talu. Penderfynwyd i'r clercc gysylltu â phartion perthnasol.

It was suggested by council for the clerk to seek information regarding online banking to save money and time regarding payment processes. Resolved for clerk to contact relevant parties.

301/2019-20 Nodi Derbyniadau / Noting of Receipts.

Dim / None.

302/2019- I dderbyn diweddariad ar Wobrau'r Gymuned a'r Ieuenctid. / To receive an update on the Community and Young People Awards.

Dim / None.

303/2019-20 - I ystyried gohebiaeth a derbyniwyd oddi wrth y canlynol / To consider correspondence received from the following

(a) Sied Dynion Cwm Gwendraeth Men's shed.

Mae angen cyllid i sefydlu amrywiaeth o weithgareddau a fyddai'n addas ar gyfer aelodau ag amrywiaeth o ddiddordebau a galluoedd. Awgrymwyd bod arian wedi'i ddyrannu ar gyfer adnewyddu'r ardd y tu allan i'r White Hart, Llanddarog gael ei ddefnyddio yn gyfnewid am gwblhau'r adnewyddiad. Y Cyngorydd J Williams O.B.E. i drafod y cynnig gydag Anthony Jones (Cadeirydd Sied Y Dynion).

Funding required to set up a variety of activities that would be suitable for members with a variety of interests and abilities. Suggested that funds allocated for the renovation of garden outside the White Hart, Llanddarog be used help fund the project in return for the "Shedders" (members of Mensshed) to complete the renovation. Cllr J Williams O.B.E. to discuss the proposal with Anthony Jones (Chairman Mensshed).

Gadael Y Cyfarfod / Departure from Meeting.

Fe wnaeth y Cyngorydd Sir A Davies adael y cyfarfod am 20.37, heb ddychwelyd / County Cllr A Davies left the meeting at 20.37, not to return.

(b) Logo Cyngor Cymuned Llanddarog / Llanddarog Community Council logo.

Cytunodd y Cyngor ar y logo newydd ar gyfer Cyngor Cymuned Llanddarog / Council agreed on the new logo for Llanddarog Community Council.



(c) Terfyn cyflymder 30mya, Mynyddcerrig / 30mph speed limit, Mynyddcerrig.

Bwriedir cyflwyno terfyn cyflymder 30mya ar hyd yr U2254 ym mhentref Mynyddcerrig. Fel rhan o'r cynllun, bwriedir hefyd osod arwyddion rheoleiddio priodol drwy'r ardal ynghyd â marciau ffordd eraill. Ystyrir bod y terfyn cyflymder 30mya yn angenrheidiol er mwyn gwella diogelwch ffyrdd wrth ddod i mewn i'r ardal ac ym mhob rhan o'r ardal.

It is proposed to introduce a 30mph speed limit along the U2254 road at Mynyddcerrig. As part of the scheme, it is also proposed to install appropriate regulatory signage throughout the area with various other road markings. The 30mph speed limit is considered necessary in the interest of road safety on the approach and throughout the area.

Dim gwrthwynebiad / No objections.

(d) Darparu seddi o fewn cysgodfan bysiau / Provision of seating within bus shelter.

Cynigiwyd gan y Cyng J Youens ac eiliwyd gan y Cyng S Herridge / *Proposed by Cllr J Youens and seconded by Cllr S Herridge.*

Cyhoeddodd y Clerc fod cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer y prosiect hwn o rodd garedig. *Clerk announced that funding had been secured for this project from a kind donation.*

(e) Materion yn ymwneud â safle datblygu newydd yn Llanddarog (Dŵr Cymru) / Matters relating to new development site in Llanddarog (Welsh Water)

As per minute **249/2019-20** the clerk sourced information from Welsh water regarding the potential housing development opposite Llanddarog Hall.

C1) A allwch chi gyflenwi lluniad o'r system garthffosydd gyfredol.

A1) Yn ôl y gofyn, gwelwch ein cynllun ynghlwm yn dangos y system garthffosiaeth gyhoeddus yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig. Nid ydym yn gallu darparu cynlluniau / lluniadau o'r system garthffosydd arfaethedig. Byddem yn eich cynghori i gysylltu â'r datblygwr neu fel arall gellir dod o hyd i unrhyw gynlluniau / gwybodaeth sy'n ymwneud â'r datblygiad arfaethedig ar wefan gynllunio'r Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI).

Q1) *Can you supply a drawing of the current sewer system.*

A1) *As requested please find attached our plan showing the public sewerage system in the vicinity of the proposed development. We are not able to provide plans/drawings of the proposed sewer system. We would advise you to contact the developer or alternatively any plans/information relating to the proposed development can be found on the Local Planning Authorities (LPA) planning website.*



Adobe Acrobat
Document

C2) Gall y system garthffosydd bresennol ymdopi â'r datblygiad newydd arfaethedig.
A2) Gallwn gadarnhau bod yr ACLI wedi ymgynghori â ni ar y cais cynllunio ac nad ydym wedi codi unrhyw bryderon ynghylch cysylltiad aflan yn unig o'r datblygiad arfaethedig.

Q2) *Can the current sewer system cope with the proposed new development.*

A2) *We can confirm that we have been consulted on the planning application by the LPA and have not raised any concerns regarding a foul only connection from the proposed development.*

C3) Sut y bydd y gwastraff a gynhyrchir gan y datblygiad tai newydd arfaethedig yn cael ei drin. A3) Bydd y llifau budr a gynhyrchir gan y datblygiad arfaethedig yn cysylltu â'r garthffos fudr gyhoeddus sydd wedyn yn gollwng i Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanddarog sydd wedyn yn arllwys i Fach Gwendraeth.

Q3) *How will the waste produced by the proposed new housing development be treated.*

A3) *The foul flows generated by the proposed development will connect to the public foul sewer that then discharges to Llanddarog Waste water Treatment Works that then outfalls to the Gwendraeth Fach.*

(f) Materion yn ymwneud ag amodau hysbysfyddau yn Llanddarog a Porthyrhyd / Matters relating to condition of notice boards in Llanddarog and Porthyrhyd.

Clerc i gael dyfynbrisiau gan 3 chyflenwr ar gyfer hysbysfyddau cyhoeddus newydd.
Clerk to obtain quotations from 3 suppliers for new public notice boards.

(g) Cynnal a chadw tir ger White Hart, Llanddarog / Ground maintenance of land near White hart, Llanddarog.

Clerc i wirio cytundeb contract ynghylch cynnal a chadw tir.

Clerk to check contract agreement regarding land maintainance.

(h) Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 / Carmarthenshire Revised Local Development Plan 2018 – 2033

Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Sir Caerfyrddin a'i roi ar hysbysfyddau.

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033>

Letter received from Carmarthenshire County Council and placed on notice boards.

<https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/planning/local-development-plan-2018-2033>

304/2019-20 . I gynnal fforwm er mwyn i Aelodau i godi adroddiadau / cwestiynau drwy'r Cadeirydd. To hold a forum in order for Members to raise reports / questions through the Chairman.

a) Adroddwyd bod yr arwydd bymp cyflymder gyferbyn â'r ysgol yn Llanddarog yn ansefydlog. Penderfynwyd i'r clerc gysylltu â'r adran berthnasol i sicrhau arwydd

a) *It was reported that the speed bump sign opposite the school in Llanddarog is unstable. Resolved for clerk to contact relevant department to secure sign.*

b) Mae cyflwr y ffordd rhwng Neuadd Llanddarog ar Mansel Arms yn dirywio. Penderfynwyd ei roi ar yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Mawrth.

b) Road condition between Llanddarog Hall and The Mansel Arms is deteriorating. Resolved to place on agenda for March meeting.

c) Awgrymwyd y dylid anfon gwahoddiad i Mr Terry Jones (Cynrychiolydd Cyngor Cymuned Llanddarog o lywodraethwyr yr ysgol) i roi arfarniad ar berfformiad Ysgol Gynradd Llanddarog dros y 12 mis diwethaf a rhoi gwellhad i ddigwyddiadau a fyddai'n ennyn diddordeb y gymuned.

c) It was suggested that an invitation be sent to Mr Terry Jones (Community Council Representative of School Governors) to give an appraisal on Llanddarog Primary School's performance over the past 12 months and give an update on events that would engage the community.

305/2019-20 Mewn Camera / In-Camera – 21.21.

Fe wnaeth y rhai nad oeddynt yn Aelodau'r Cyngor Cymuned neu'r Clerc adael y cyfarfod - heb ddychwelyd. Mae'r gwahardd oherwydd materion personél /staff yn cael ei thrafod.

Those who were not Community Council Members or the Clerk departed the meeting - not to return. The exclusion is due to personnel / staffing matters being discussed.

306/2019-20 Rhediad taliad staff Chwefror 2020 / Staff pay run February 2020.

Fe wnaeth bob Aelod derbyn copi o'r adroddiad o flaen llaw. Fe benderfynwyd derbyn yr adroddiad a chadarnhau talu'r symiau fel y cyflwynwyd.

Each Member had been provided with a written report in advance of the meeting. It was resolved to accept the report and ratify the payment of the sums as presented.

307/2019-20 Yswiriant Cyngor Cymuned Llanddarog / Llanddarog community Council insurance.

Derbyniodd y Cyngor gopi o'r polisi yswiriant yn ôl y gofyn ac roedd y ddogfen yn dderbyniol. Penderfynwyd nodi.

The Council received a copy of the insurance policy as requested and the document was acceptable. It was resolved to note.

308/2019-20 Cytundeb gwasanaeth cyfieithu am 2020 / Service agreement for translation for 2020

Derbyniodd y Clerc gytundeb ar gyfer 2020/2021 gan y cyflenwr cyfredol i ddarparu gwasanaethau ar yr un telerau â blwyddyn 2019/2020. Penderfynwyd derbyn y telerau cytundeb newydd.

Clerk received agreement for 2020/2021 from current supplier to provide services on the same terms as year 2019/2020. Resolved to accept the new terms of agreement.

309/2019-20 Daeth y cyfarfod i ben am 21.27 / The meeting finished at 21.27.

CADEIRYDD / CHAIRMAN

DYDDIAD / DATE